Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Dafydd Evans
Grŵp Llandrillo Menai
Llandudno Road
Rhos on Sea
Colwyn Bay
LL28 4HZ

11 Mawrth / March 2022

**Ymweliad monitro prentisiaethau dysgu yn y gwaith**

Annwyl / Dear Dafydd Evans

Rhwng 31 Ionawr a 3 Chwefror 2022, ymwelodd Mark Evans AEM a Sandra Barnard AEM â'r darparwr a'i is-gontractwyr i adolygu cyflwyno ei raglenni prentisiaeth yn ystod blwyddyn gyntaf eu contract gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r adborth o'r ymweliad hwn.

Mae consortiwm dysgu yn y gwaith Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai sy'n arwain y bartneriaeth, dau bartner a thri is-gontractwr. Mae'r consortiwm yn cyflwyno rhaglenni prentisiaeth yng ngogledd Cymru i 2,771 o brentisiaid. Maent yn cyflwyno rhaglenni mewn 12 maes dysgu; iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal yw'r mwyaf gydag 876 o ddysgwyr. Mae'r consortiwm yn cyflwyno prentisiaethau ar lefel 2, lefel 3 a phrentisiaethau uwch. Yn ogystal â chyflwyno ystod eang o raglenni prentisiaeth, mae'r consortiwm hefyd yn cyflwyno prentisiaethau diffoddwyr tân ar gyfer Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a hyfforddwyr chwaraeon ar gyfer ysgolion.

Ar ddechrau'r contract newydd ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r consortiwm gefnogi 39 o ddysgwyr a symudwyd o ddarparwr hyfforddiant na ddyfarnwyd contract prentisiaeth iddo. Mae'r consortiwm wedi terfynu contractau yn raddol gyda thri is-gontractwr, gydag 16 dysgwr yn cwblhau eu prentisiaethau.

Mae'r consortiwm yn gweithredu system ffioedd rheoli dwy haen ar gyfer partneriaid ac is-gontractwyr, sydd wedi'i seilio ar berfformiad hanesyddol a lefel y cymorth sydd ei hangen arnynt.

Mae'r consortiwm yn cynnal cyswllt rheolaidd gyda phartneriaid ac is-gontractwyr, gan rannu ystod eang o wybodaeth am y galw gan gyflogwyr, perfformiad dysgwyr a diweddariadau gan Lywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu.

Hefyd, caiff aelodau'r consortiwm fynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol ar gyfer staff. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau ynglŷn â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a gwybodaeth yn ymwneud â dysgu ar-lein. Mae arweinwyr y consortiwm yn dyrannu prentisiaid newydd ar sail perfformiad blaenorol partner neu is-gontractwr, a'r galw. Wrth gynllunio cyflwyno rhaglenni, mae ganddynt strategaeth glir i beidio â dyblygu rhaglenni a gyflwynir ar draws partneriaid. Mae gan y

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

consortiwm flaenoriaeth allweddol i sicrhau bod anghenion hyfforddi cyflogwyr ar draws rhanbarth daearyddol mawr ac amrywiol yn cael eu nodi a'u bodloni. O ganlyniad, mae ganddynt ffocws clir ar alinio

prentisiaethau ag anghenion yr economi ar draws y rhanbarth. Mae'r bartneriaeth medrau rhanbarthol yn llywio meddwl y darparwr a'r ffordd mae'n cynllunio ar gyfer hyfforddiant prentisiaeth, ac yn dylanwadu ar y rhain.

Mae dysgwyr ar draws meysydd dysgu a'r consortiwm yn teimlo eu bod wedi cael cymorth gan eu haseswyr, sydd wedi achosi iddynt aros ar eu rhaglenni a gwneud cynnydd. Soniodd dysgwyr am hyblygrwydd eu haseswyr i roi cymorth ar eu rhaglenni. Maent yn siarad yn gadarnhaol am lefelau'r cymorth personol y maent wedi'i gael ers dechrau eu rhaglenni prentisiaeth, a sut mae gwaith wedi cael ei deilwra i fodloni eu hanghenion unigol a'u hamgylchiadau personol. Mae'r darparwr yn nodi bod y pwysau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn her allweddol. Caiff aseswyr fynediad hynod gyfyngedig at leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i gwblhau asesiadau dysgwyr. O ganlyniad, mae nifer o ddysgwyr wedi gadael eu rhaglen i chwilio am swydd arall, ac yn aml, caiff cynnydd dysgwyr ei gyfyngu o ganlyniad i'r baich gwaith a'r gofynion o fewn y sector.

Wrth drafod eu profiad o ddysgu ar-lein, cydnabu dysgwyr y gallai agweddau ar ddysgu ar-lein fod yn fuddiol ac yn fwy effeithiol na sesiynau wyneb yn wyneb, gan arbed yn arbennig yr angen i deithio i ganolfannau hyfforddi. Nododd dysgwyr fod adolygiadau cynnydd yn elfen allweddol o'u rhaglen y gellid eu cynnal o bell, yn ogystal â sesiynau cymorth unigol. Siaradodd dysgwyr adeiladu, peirianneg a chyfrifyddiaeth yn agored am gyfyngiadau dysgu ar-lein, a'r modd y maent wedi croesawu dychwelyd i weithgareddau wyneb yn wyneb. Yn benodol, roeddent wedi gweld eisiau'r rhyngweithio â'u cyfoedion a'u hathrawon, a'r rhwydwaith cymorth sydd ganddynt wrth weithio mewn grwpiau. Roeddent yn teimlo y gellid cael cymorth gan athro yn gyflymach mewn cyd-destun wyneb yn wyneb, a'i bod yn haws gofyn cwestiynau a chael atebion clir na phan fyddant mewn sesiwn grŵp ar-lein. Roedd dysgwyr yn falch ac wedi eu cymell i ymgysylltu o'r newydd â sesiynau wyneb yn wyneb, ac yn edrych ymlaen yn frwdfrydig at fwrw ymlaen â'u prentisiaethau, a'u cyflawni. Yn aml, nid yw prentisiaid lefel uwch yn sylwi ar ryw lawer o newid yn eu model cyflwyno ac asesu. Maent wedi parhau â'u dysgu heb lawer o darfu ac yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd cadarn yn ystod y pandemig.

**Work-based learning apprenticeship monitoring visit**

Between 31 January and 3 February 2022, Mark Evans HMI and Sandra Barnard HMI visited the provider and its subcontractors to review the delivery of its apprenticeship programmes in the first year of their Welsh Government contract. This letter provides a summary of feedback from this visit.

The Grŵp Llandrillo Menai work-based learning consortium comprises of Grŵp Llandrillo Menai who leads the partnership, two partners and three subcontractors. The consortium delivers apprenticeship programmes in north Wales to 2,771 apprentices. They deliver programmes in 12 learning areas with health, public services and care being the largest with 876 learners. The consortium delivers apprenticeships at level 2, level 3 and higher apprenticeships. As well as delivering a wide range of apprenticeship programmes, the consortium also delivers firefighter apprenticeships for North Wales Fire Service and sports coaches for schools.

At the start of the new contract for apprenticeship programmes, the consortium was asked by the Welsh Government to support 39 displaced learners from a training provider who was not awarded an apprenticeship contract. The consortium has run-down contracts with three subcontractors with 16 learners completing their apprenticeships.

The consortium operates a two-tier management fee system for partners and subcontractors that is based upon the historical performance and the level of support they need. The consortium maintains regular contact with partners and subcontractors, sharing a wide range of information on employer demand, learner performance and updates from Welsh Government and awarding bodies.

Consortium members also have access to professional development events for staff, these include updates regarding the ALNET Act and information relating to online learning.

The consortium leaders allocate new apprentice starts based on a partner's or subcontractor's previous performance and demand. When planning programme delivery, they have a clear strategy to not duplicate programme delivery across partners. The consortium has a key priority to ensure that the training needs of employers across a large and diverse geographical region are identified and met. As a result, they have a clear focus on aligning apprenticeships with the needs of the economy across the region. The regional skills partnership informs and influences the provider's thinking and planning for apprenticeship training.

Learners across learning areas and the consortium feel they have received support from their assessors that has resulted in them staying on their programmes and making progress. Learners commented on the flexibility of their assessors to give support on their programmes. They speak positively about the levels of personal support they have received since starting their apprenticeship programmes and how work has been tailored to meet their individual need and personal circumstances. The provider identifies the pressures in the health and social care sector as a key challenge. Assessors have particularly limited access to health and social care settings to complete learner assessments. As a result, a number of learners have left their programme to seek alternative employment and learner progress is often restricted due to the workload and demands within the sector.

When discussing their experience of online learning, learners recognised that aspects of online learning may be beneficial and more effective than face-to-face sessions, especially saving on the need to travel to training centres. Learners identified progress reviews as a key component of their programme that could be undertaken remotely as well as individual support sessions. Construction, engineering and accountancy learners spoke openly about the limitations of online learning and how they have welcomed the return to face-to-face activities. They particularly missed the interaction with their peers and teachers, and the

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

support network they have when working in groups. They felt that teacher support could be accessed quicker in a face-to-face context, and it was easier to ask questions and get clear responses than when they are in a group session online. Learners were pleased and motivated to be re-engaging in face-to-face sessions and looking forward with enthusiasm to progressing and achieving their apprenticeships. Higher level apprentices often notice little change in their delivery and assessment model. They have continued their learning with little interruption and feel they have made sound progress during the pandemic.

Yn gywir / Yours sincerely

**Jackie Gapper**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol /
Assistant Director